# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 27 Mehefin 2024

Amser: 09.15 - 11:30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

# O bell

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(9:00 - 9:15)

## (Cyfarfod cyhoeddus)

(9:15 - 9:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

(9:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(9:15 - 9:30)

**2.1 Llythyr gan Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig - Ymateb i adroddiad Archwilio Cymru: Datblygu cynaliadwy? - gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag**

(Tudalennau 1 - 7)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-PTN1 Llywodraeth Cymru - Dir Llwyd

**2.2 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol - Diweddariad ar argymhelliad 18 o Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon - Llywodraeth Cymru 2021-22**

(Tudalennau 8 - 9)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-PTN2 Llywodraeth Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22

**2.3 Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith - Trafnidiaeth Cymru a Gwasanaethau Rheilffyrdd**

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-PTN3 Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith - Trafnidiaeth Cymru a Gwasanaethau Rheilffyrdd

**2.4 Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at Archwilio Cymru - Trafnidiaeth Cymru a Gwasanaethau Rheilffyrdd**

(Tudalennau 12 - 13)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-PTN4 Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i Archwilio Cymru - Trafnidiaeth Cymru a Gwasanaethau Rheilffyrdd

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(9:30)

## 4 Adroddiad Drafft - Diogelwch Adeiladu yng Nghymru

(9:30 - 10:00) (Tudalennau 14 - 51)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-P1 Diogelwch Adeiladu yng Nghymru Adroddiad Drafft - Fersiwn Cyfarfod (Saesneg yn unig)

## 5 Trafodaeth o ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilio Cymru - Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

(10:00 - 10:20) (Tudalennau 52 - 57)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-P2 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilio Cymru Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

## 6 Adroddiad Archwilio Cymru - A465 Rhan 2: Adroddiad diweddaru

10:20 - 10:50

**Dogfennau ategol:**

Adroddiad Archwilio Cymru - A465 Rhan 2: Adroddiad diweddaru

## 7 Blaenraglen Waith

(10:50 - 11:10) (Tudalennau 58 - 70)

**Dogfennau atodol:**

PAPAC(06)-11-24-P4 Blaen rhaglen Gwaith Drafft Medi-Rhagfyr 2024 (Saesneg yn unig)

## 8 Trafodaeth a'r camau nesaf - Llawlyfr y Cabinet

(11:10 - 11:30)

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Local Government, Housing & Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Adrian Crompton
Auditor General for Wales
Audit Wales
1 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

10 Mehefin 2024

Annwyl Archwilydd Cyffredinol

Diolch ichi am eich adroddiad, ***Datblygu cynaliadwy? – gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag.***

Rwy'n falch o gael amgáu'n hymateb manwl i'r argymhellion a wnaed ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dweud yn glir eu bod, drwy wireddu'r ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu, yn benderfynol o wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed yn well i fyw ac i weithio ynddynt. Mae nifer o heriau i'w hwynebu, wrth gwrs, ond bydd gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd yn ein cynorthwyo i daro'r nod mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae Gweinidogion Cymru yn glir y dylid rhoi blaenoriaeth i 'dir llwyd' a ddatblygwyd yn y gorffennol, os yw'r tir hwnnw'n addas i'w ddatblygu, yn lle safleoedd maes glas. Mae'r polisi hwn yn cefnogi cynaliadwyedd ac, fel y nodwch yn eich adroddiad, mae'n cael ei amlinellu mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf yn cefnogi'r nod hwn drwy ystyried tir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen neu adeiladau sy'n bodoli eisoes wrth benderfynu ar leoliadau gwasanaethau cyhoeddus.

Er hynny, mae nifer o heriau a rhwystrau i'w hystyried wrth ddatblygu ar safleoedd tir llwyd, ac rydych yn tynnu sylw at lawer ohonynt yn eich adroddiad. Pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol, rydym am helpu'r awdurdodau lleol, datblygwyr a rhanddeiliaid eraill i oresgyn y rhwystrau hynny.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn canolbwyntio hefyd ar ailddefnyddio adeiladau gwag. Byddwch yn gweld yn ein hymateb i'r argymhellion yr ystod eang o weithgareddau y mae timau yn Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nhw er mwyn helpu i fynd i'r afael ag eiddo gwag.

Mae'r ddau argymhelliad sy'n rhai penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gofnodi manylion safleoedd sydd ar gael i'w hadfywio, a monitro lefelau datblygu ar safleoedd tir llwyd. Wrth inni graffu ar Gynlluniau Datblygu Lleol, byddwn yn ceisio sicrhau bod cofrestrau tir llwyd a thir maes glas yn cael eu paratoi a'u cynnal. Mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i *gynnig cefnogaeth i ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag* hefyd yn uniongyrchol berthnasol i'ch argymhellion.

Hefyd, mae'r rhaglen adfywio, Trawsnewid Trefi, yn helpu i ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd yng nghanol trefi a dinasoedd ledled Cymru. Mae'r cynlluniau hynny’n ddogfennau allweddol a gafodd eu datblygu drwy siarad a thrafod â phobl a busnesau lleol. Bydd Cynllun Creu Lleoedd yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i wella canol trefi, ac yn gyfle i adnabod adeiladau gwag a thir llwyd i'w ddatblygu.

Mae'ch adroddiad yn gyfraniad gwerthfawr i'r gwaith rydym yn ei wneud yn y maes hwn, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid i weithredu'r argymhellion.

Anfonwyd copïau o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.

Yn gywir,

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Llywodraeth Leol, Tai & Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

# Ymateb sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Datblygu cynaliadwy? - gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag

**Dyddiad cwblhau:** Ionawr 2024

Tudalen y pecyn 3

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A4** | Er mwyn helpu i alluogi rhanddeiliaid i asesu safleoedd posibl, dylai Llywodraeth Cymru:<br>• weithio gyda chynghorau i sicrhau yr adroddir ar restrau o safleoedd a nodwyd ar gyfer adfywio yn ôl ardaloedd cynghorau; a<br>• llunio rhestr genedlaethol a oleuwyd gan y rhestrau lleol a thrwy weithio ar y cyd gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. | **Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn.**<br><br>**Rydym yn ceisio gwella'r ffordd yr eir ati i nodi safleoedd tir llwyd:** | | |
| | | • Byddwn, wrth graffu ar Gynlluniau Datblygu Lleol, yn ceisio sicrhau bod cofrestrau tir llwyd a thir maes glas yn cael eu paratoi a'u cadw. | Yn cyd-fynd â'r cylch CDLlau. | Y Prif Gynllunydd |
| | | • Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i gasglu data sy'n cael eu cadw ar y lefel leol a'u cynnwys mewn cofrestr genedlaethol. | Mis Mawrth 2025 | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tir |
| | | **O ran eiddo gwag, rydym yn wrthi'n ymgymryd ag ystod o waith a fydd yn ein helpu i weithredu ar yr argymhelliad hwn, gan gynnwys:** | | Y Dirprwy Gyfarwyddwr Cartrefi a Lleoedd |
| | | • Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar yr ymrwymiad a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu i "*Cynnig cefnogaeth i ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag".* Rydym wedi comisiynu ymchwil annibynnol a fydd yn helpu i gadarnhau'r hyn a fyddai'n fwyaf defnyddiol i fusnesau bach o ran cael mynediad i eiddo gwag yng nghanol trefi. | Bydd y gwaith ymchwil yn cael ei gwblhau yn hydref 2024. | |
| | | • Rydym wedi sefydlu gweithgor bach o awdurdodau lleol sydd wedi bod yn gwneud cynnydd o ran nodi adeiladau gwag yng nghanol eu trefi. Bydd y grŵp hwn yn rhannu'r | Hydref 2024 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arferion gorau sydd i'w gweld eisoes ac yn ystyried sut y gellir datblygu mwy arnynt a'u cyflwyno'n fwy eang. Bydd y rhaglen waith yn ymdrin â materion megis: casglu data am eiddo gwag masnachol; cadw cofrestrau; cymorth i fusnesau; alinio polisïau a'r heriau presennol.<br><br>• Bydd trafodaethau'r gweithgor a'r ymchwil annibynnol ar sut mae busnesau bach yn cael mynediad i eiddo gwag yng nghanol trefi yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd dros y misoedd nesaf, a byddant yn dylanwadu ar ei gilydd.<br><br>**Dyma rai o'r datblygiadau eraill:**<br><br>• Ei gwneud yn orfodol i'r awdurdodau lleol ystyried adeiladau gwag yng nghanol trefi wrth baratoi'r Cynlluniau Creu Lleoedd yr ydym yn eu helpu i'w datblygu;<br><br>• Mae Cynlluniau Creu Lleoedd yn gyfle i nodi safleoedd tir llwyd yng nghanol trefi y byddai'n briodol eu datblygu;<br><br>• Hyrwyddo Cronfa Ddata Eiddo Busnes Cymru \| Busnes Cymru (llyw.cymru);<br><br>• Drwy'n cynllun Gorfodi ar gyfer Eiddo Gwag, rydym yn parhau i helpu'r awdurdodau lleol i sefydlu Cynlluniau Gweithredu unigol ar gyfer Gorfodi mewn perthynas ag Eiddo Gwag, er mwyn mynd i'r afael ag eiddo masnachol a phreswyl sy'n wag yn yr hirdymor, gan flaenoriaethu pa eiddo y dylid cymryd camau gorfodi yn ei erbyn; | Hydref 2024<br><br>Darparwyd cyllid refeniw yn 2023/24 er mwyn helpu gyda'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd. Ar yr amod y ceir cymeradwyaeth y Gweinidog, byddwn yn ceisio dyrannu adnoddau ychwanegol yn 2024/25 i gefnogi'r gwaith hwnnw.<br><br>Mae gofyn rhoi diweddariadau blynyddol am Gynlluniau Gweithredu. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Gwerthuso Gwaith Gorfodi: Cafodd OB3 Research eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r cynllun Gorfodi ar gyfer Eiddo Gwag. Y nod oedd meithrin dealltwriaeth o lwyddiant ac effaith y cynllun hyd yma. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y cymorth a'r gronfa ar gyfer Gorfodi mewn perthynas ag Eiddo Gwag yn cyd-fynd yn dda â'r blaenoriaethau polisi a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Datganiad Sefyllfa ar Ganol Trefi. Roedd yn cydnabod pa mor bwysig oedd parhau i roi blaenoriaeth i'r polisi ar lefel genedlaethol, gan helpu i gadw'r ffocws ar lefel yr awdurdodau lleol;<br><br>• Mae datblygu dogfen ganllaw ar gartrefi gwag ar gyfer yr awdurdodau lleol yn rhan o'r gwaith sydd wrthi'n cael ei wneud o dan raglen Unnos. Mae'r rhaglen yn parhau i drefnu bod arbenigwyr yn y diwydiant yn cynnig cyngor a chymorth i'r awdurdodau lleol am sut orau i ddefnyddio'u holl bwerau i sicrhau bod eiddo gwag ac adfeiliedig yn cael ei ailddefnyddio. Bydd y cyngor gan arbenigwyr yn y diwydiant yn parhau i fod ar gael drwy gydol 2024/25, a bydd y ddogfen ganllaw yn cael ei chwblhau erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25. | Wedi'i gwblhau.<br><br>Bydd y ddogfen ganllaw ar gyfer yr awdurdodau lleol wedi'i chwblhau erbyn mis Mawrth 2025. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tir |
| **A5** | Er mwyn helpu i oleuo gwaith i graffu ar berfformiad yn lleol ac yn genedlaethol, dylai Llywodraeth Cymru greu fframwaith cenedlaethol ar gyfer monitro ac asesu lefelau safleoedd tir llwyd sy'n cael eu datblygu o'i gymharu â lefelau'r safleoedd sydd ar gael a lefelau datblygu maes glas. | **Rydym yn derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd sicrhau bod data ar safleoedd tir llwyd a meysydd glas yn fwy hygyrch yn cefnogi craffu a thryloywder.**<br><br>Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn hyrwyddo ailddatblygu tir llwyd cyn y maes glas. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gynnwys polisïau a chynigion yn eu CDLlau ar gyfer adfer a datblygu safleoedd diffaith presennol lle mai datblygu yw'r ymateb a ffefrir. Cesglir data | Byddwn yn ymgynghori ar ail-gyflwyno gofynion casglu data fel rhan o ymgynghoriad ar ffïoedd cynllunio yn Haf 2024. | Y Prif Gynllunydd |

Tudalen y pecyn 6

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ar safleoedd tir llwyd a meysydd glas drwy'r broses CDLl a byddwn yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i wneud mwy o'r data hwn yn hygyrch i randdeiliaid. Mae ein hymateb i Argymhelliad 4 yn ein hymrwymo i archwilio cyfleoedd i gasglu data a ddelir yn lleol ar gofrestr genedlaethol ac sydd â'r potensial i gefnogi craffu a gwella tryloywder. | | |
| | | Mae'r awdurdodau cynllunio yn llunio Astudiaethau Capasiti Trefol wrth baratoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer CDLlau sy'n nodi'r safleoedd gwag sy'n addas i'w datblygu. Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLlau yn darparu gwybodaeth am faint o dir llwyd a faint o safleoedd maes glas sy'n cael eu datblygu. | Yn cyd-fynd â'r cylch CDLlau | |
| | | Cyn Covid, roedd yr wybodaeth o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn cael eiucasglu er mwyn paratoi set data cenedlaethol. Byddwn yn mynd ati yn y dyfodol i ailedrych ar sut i wneud y defnydd gorau o'r data hynny ar y lefel genedlaethol er mwyn helpu i lywio gwaith craffu. | Hydref 2025 | |

Eitem 2.2

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

12 Mehefin 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22**

Pan roddais ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22, cytunais i ddarparu diweddariad ar Argymhelliad 18 erbyn 30 Mehefin 2024.

Mae'r argymhelliad gwreiddiol a'n hymateb ninnau i'w gweld isod.

***Argymhelliad 18***

*Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y mae'n adrodd colledion i'r Senedd a rhoi esboniad o'r hyn y mae'n ei ystyried yn golled "ddifrifol", yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.*

***Derbyn***

*Byddwn yn adolygu'r ffordd y rhoddwyd gwybod i'r Senedd am yr holl golledion dros y pum mlynedd diwethaf, yn ystyried arferion da mewn mannau eraill ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn 30 Mehefin 2024 ar ein canfyddiadau, gan gynnwys os ydym o'r*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

*farn bod angen diweddaru ein canllawiau cyfredol ar sut yr ydym yn rhoi gwybod am golledion neu'n diffinio colled ddifrifol.*

Er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym wedi edrych ar y ffordd y rhoddwyd gwybod am golledion dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi cymharu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd am golledion difrifol â'r adroddiadau a wneir gan y Llywodraethau datganoledig eraill a Llywodraeth y DU.

Rydym wedi nodi bod ein harferion adrodd a'r ffordd yr ydym yn diffinio colled ddifrifol yn gyson â'r gweinyddiaethau eraill. Mae hyn yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n ystyried bod colled yn "ddifrifol" os caiff ei hadrodd i'r Senedd drwy Ddatganiad Ysgrifenedig.

Mae'r diffiniad o golled ddifrifol yn ddibynnol ar yr amgylchiadau sy'n berthnasol iddi. Nid yw'n briodol, felly, rhoi gwerth na throthwy ar golled ddifrifol. Mae colledion o werth mawr yn ddifrifol, ond ni fyddem am gael trothwy a fyddai'n golygu na ellid ystyried bod colledion o werth llai islaw'r trothwy hwnnw yn rhai difrifol, ac na fyddent yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd felly. Mae angen dwyn i gof y rheswm dros y golled hefyd wrth benderfynu a chaiff ei hystyried yn golled ddifrifol ai peidio. Er enghraifft, efallai y bydd colled o ganlyniad i dwyll allanol yn cael ei hystyried yn un ddifrifol, ond na fydd colled o'r un swm yn ystod cwrs arferol busnes o ganlyniad i symudiadau yn y cyfraddau cyfnewid yn cael ei hystyried felly. Yn y pen draw, y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol neu'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ddylai wneud y dyfarniad.

Byddwn yn sicrhau bod canllawiau yn cael eu cyhoeddi yn egluro hyn a'i fod yn cael ei adlewyrchu yn y diweddariad i Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn gywir,

Andrew Goodall

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

# Eitem 2.3

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

19 Mehefin 2024

Annwyl Mark,

Rwy'n amgáu copi o adroddiad diweddaraf y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Drafnidiaeth Cymru a gwasanaethau rheilffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024.

Fel y gwyddoch, yn ei adroddiad, daw'r Pwyllgor i'r casgliad y dylai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu'r Senedd ac Archwilio Cymru ystyried a oes angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru graffu ymhellach ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd a phrosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd drwy ymgymryd ag astudiaeth gwerth am arian.

Yr amcangyfrif ar gyfer costau'r prosiect oedd £738 miliwn yn 2018, ond mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n sylweddol ac mae wedi codi £306 miliwn. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod chwyddiant a digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld, fel pandemig COVID-19 wedi creu heriau difrifol, ond roedd maint y cynnydd yn peri pryder arbennig.

O'n trafodaethau gyda Trafnidiaeth Cymru, daeth i'r amlwg y gellid priodoli tua thraean o'r cynnydd yn y costau i 'gyfyngiadau seilwaith'. Fe'n synnwyd na chafodd cyfyngiadau o'r maint hwn eu rhagweld na'u nodi'n gynharach yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect. Yn ogystal â hyn, roedd Trafnidiaeth Cymru yn honni y gellid gwario £20-30 miliwn yn llai ar y gyllideb ar gyfer metro de



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cymru heb beryglu diogelwch na’r gwasanaethau. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Drafnidiaeth Cymru yn y cyswllt hwn.

Wynebodd Trafnidiaeth Cymru heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys bwlch ariannol o £100 miliwn yn deillio o ddiffyg twf refeniw a ragwelir gan wasanaethau rheilffyrdd. Er bod y cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 wedi'i "nodi'n sylfaenol" yng nghyllideb TrC ar gyfer y blynyddoedd i ddod, rydym yn parhau i bryderu y bydd TrC a, thrwy estyniad, Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn agored yn ariannol os na fydd refeniw farebox yn dod i'r amlwg ar lefelau disgwyliedig.

O ystyried y buddsoddiad sylweddol a'r risgiau cysylltiedig, credwn y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau rheilffyrdd ac adolygiad gwerth am arian o brosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn gofyn iddo ystyried hyn a byddaf yn rhoi gwybod i chi am ei gasgliadau maes o law.

Byddwn yn hapus i chi drafod y mater hwn yn uniongyrchol gydag Archwilio Cymru ac i'ch Pwyllgor dynnu sylw at unrhyw faterion eraill y dylai’r Archwilydd Cyffredinol eu hystyried.

Cofion gorau,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Prif Weithredwr Archwilio Cymru

19 Mehefin 2024

Annwyl Adrian,

### Cais i graffu ymhellach ar Drafnidiaeth Cymru a Phrosiect Moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei adroddiad diweddaraf am Drafnidiaeth Cymru a gwasanaethau rheilffyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024. Yn ei adroddiad, daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylai Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddu'r Senedd ac Archwilio Cymru ystyried a oes angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru graffu ymhellach ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd a phrosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd drwy ymgymryd ag astudiaeth gwerth am arian.

Yr amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer costau'r prosiect oedd £738 miliwn, a hynny yn 2018, ond mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu'n sylweddol ac mae wedi codi £306 miliwn. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod chwyddiant a digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld, fel pandemig COVID-19 wedi creu heriau difrifol, ond roedd maint y cynnydd yn peri pryder arbennig.

O'n trafodaethau gyda Trafnidiaeth Cymru, daeth i'r amlwg y gellid priodoli tua thraean o'r cynnydd yn y costau i 'gyfyngiadau seilwaith'. Fe'n synnwyd na chafodd cyfyngiadau o'r maint hwn eu rhagweld na'u nodi'n gynharach yn ystod cyfnod cynllunio'r prosiect. Yn ogystal â hyn, roedd

Trafnidiaeth Cymru yn honni y gellid gwario £20-30 miliwn yn llai ar gyllideb metro de Cymru heb beryglu diogelwch na’r gwasanaethau. Rydym wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Drafnidiaeth Cymru yn y cyswllt hwn.

Wynebodd Trafnidiaeth Cymru heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys bwlch ariannol o £100 miliwn yn deillio o ddiffyg twf refeniw a ragwelir gan wasanaethau rheilffyrdd. Er bod y cyllid ychwanegol ar gyfer 2024-25 wedi'i "nodi'n sylfaenol" yng nghyllideb TrC ar gyfer y blynyddoedd i ddod, rydym yn parhau i bryderu y bydd TrC a, thrwy estyniad, Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn agored yn ariannol os na fydd refeniw farebox yn dod i'r amlwg ar lefelau disgwyliedig.

O ystyried y buddsoddiad sylweddol a'r risgiau cysylltiedig a'r ffaith nad yw Pwyllgorau'r Senedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth fewnol Trafnidiaeth Cymru sy'n hanfodol i ddeall y materion dan sylw, credwn y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o wasanaethau rheilffyrdd ac adolygiad gwerth am arian o brosiect moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried y mater hwn ac yn rhoi’ch barn i’r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

**Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg**
**Education, Culture and Welsh Language Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton,
Archwilydd Cyffredinol Cymru
infoofficer@audit.wales

Dan ofal:
Matthew Mortlock, Cyfarwyddwr
Matthew.Mortlock@audit.wales


21 Mai 2024

Annwyl Archwilydd Cyffredinol,

Gweler ynghlwm ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilio Cymru ar Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru.

Mae'r llythyr hwn wedi ei gopïo at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gywir,



Sioned Evans
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Director General, Education, Culture and Welsh Language Group

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400

# Ymateb sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru

**Dyddiad Cwblhau:** Mawrth 2024

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chynnal cynlluniau wrth gefn y gall eu defnyddio os yw'n penderfynu gweithredu cynllun tebyg i letya ffoaduriaid yn y dyfodol. Dylai'r rhain gymhwyso gwersi a ddysgwyd o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn a allai fod wedi mynd yn well ar gyfer yr ymateb i Wcráin, gan gynnwys:<br>• defnyddio'r Ganolfan Gyswllt, Hybiau Cyrraedd a Chanolfannau Croeso;<br>• bod ag arlwy glir i ffoaduriaid sy'n ystyried cynlluniau adsefydlu eraill;<br>• dulliau ar gyfer asesu anghenion o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau;<br>• dulliau ar gyfer modelu'r galw, capasiti a chostau yn gynnar;<br>• trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt gyda phartneriaid ymlaen llaw ac y gellir eu sefydlu'n gyflym; a | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.<br><br>Oherwydd natur unigryw ac arloesol y rhaglen Cartrefi i Wcráin, mae datblygu fframwaith a methodoleg y rhaglen wedi bod yn broses ailadroddol. O ystyried hyn, mae llawer iawn wedi'i gyflawni o fewn cyfnod byr. Datblygwyd ein hymateb yn unol â gwersi a ddysgwyd o raglenni adsefydlu pobl o Affganistan a Syria, yn ogystal â gwersi yn ymwneud â'r system lloches.<br><br>Rydym yn cydnabod pwysigrwydd dysgu o bob cynllun newydd ac rydym eisoes wedi ymgorffori llawer o'r gwersi a ddysgwyd yn ein dulliau gweithredu presennol. Byddwn yn parhau i roi'r argymhelliad hwn ar waith drwy ddiweddaru ein Llawlyfr Polisi yn gyson i'n helpu i baratoi'n effeithiol os bydd angen cynllun tebyg yn y dyfodol. Mae'r Llawlyfr Polisi eisoes wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau bod ein dulliau gweithredu yn gyson ac yn cyd-fynd â'n Hegwyddorion Cenedl Noddfa.<br><br>Yn ogystal â'r Llawlyfr Polisi, byddwn yn creu dogfen 'prif argymhellion o'r gwersi a ddysgwyd' at ddefnydd mewnol, gan dynnu sylw at y gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau.<br><br>Bydd diweddariadau i'r Llawlyfr Polisi yn y dyfodol yn cael eu llywio gan y ddogfen 'prif argymhellion o'r gwersi a ddysgwyd'. | Awst 2024 | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau Cydlynus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • gofynion data cytunedig a dull cytunedig ar gyfer rhannu data o’r cychwyn cyntaf. | | | |
| **A2** | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru canllawiau perthnasol er mwyn:<br>• ei gwneud yn glir y dylai penderfyniadau i beidio â chyhoeddi Hysbysiadau Dyfarnu Contract, a’r rhesymeg dros hynny, gael eu cofnodi’n llawn ar y pryd; a<br>• hybu dull cyson o gyhoeddi, neu beidio â chyhoeddi, hysbysiadau lle mae Llywodraeth Cymru’n gweithio gyda phartneriaid i gaffael nwyddau neu wasanaethau. | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.<br><br>Rhaid i benderfyniadau ynghylch cyhoeddi neu beidio cyhoeddi hysbysiadau dyfarnu contract gydymffurfio â'r Rheoliadau Caffael, sef Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ar hyn o bryd - rhaid i Awdurdodau Contractio Cymru gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.<br><br>Bydd gweithdrefnau caffael mewnol Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddaru yn unol â'r canlynol:<br>1. Diweddaru Rhestr Wirio Tendr Caffael Llywodraeth Cymru ar unwaith er mwyn:<br>i. darparu arweiniad yn unol â'r rheoliadau ynghylch pryd y mae'n briodol dal hysbysiad dyfarnu yn ôl.<br>ii. cynnwys lle i Lywodraeth Cymru gofnodi'r rhesymeg dros beidio â chyhoeddi hysbysiad dyfarnu, os gwneir y penderfyniad hwnnw;<br>iii. cynnwys canllawiau i nodi y dylid mabwysiadu un dull gweithredu cyson pan fo Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i gaffael.<br>2. Adolygu rhestr wirio hydref 2024 yng ngoleuni'r Ddeddf Gaffael sy'n dod i rym a diwygio nodiadau/canllawiau yn ôl yr angen. | 1 – Ebrill 2024<br><br>2 – Tachwedd 2024 | 1 - Gwasanaethau Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru<br><br>2 – Cyflenwi / Gweithrediadau Caffael Llywodraeth Cymru |
| **A3** | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu pa un a ddylid cyhoeddi Hysbysiadau Dyfarnu Contract yn ôl-weithredol ar | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.<br><br>Mae awdurdodau lleol yn cadw eu canllawiau caffael eu hunain, gan gynnwys eu hymrwymiadau i gyhoeddi hysbysiadau | 30 Mehefin 2024 | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran |

Tudalen y pecyn 56

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyfer Canolfannau Croeso sydd wedi cau. | dyfarnu contract. Ar gyfer y rhan fwyaf o Ganolfannau Croeso, bydd cyhoeddi hysbysiadau ôl-weithredol yn benderfyniad i awdurdodau lleol Cymru yn y pen draw.<br><br>Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r canlynol:<br>1. Cynnal adolygiad mewnol o Hysbysiadau Dyfarnu Contract a gyhoeddwyd ac na gyhoeddwyd, ac<br>2. Atgoffa Awdurdodau Lleol o'u cyfrifoldebau i gydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn unol â thelerau ac amodau'r Grant, a<br>3. Lle na chyhoeddwyd hysbysiadau, sicrhau bod rhesymeg wedi'i chofnodi am beidio â chyhoeddi hysbysiad dyfarnu yn unol â phenderfyniadau Llywodraeth Cymru i beidio â chyhoeddi hysbysiad. | | Cymunedau Cydlynus |
| **A4** | Dylai Llywodraeth Cymru ganfod a yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r polisi gwrthodiadau'n gyson i gefnogi'r broses symud ymlaen gan sicrhau triniaeth deg ar gyfer Wcreiniaid mewn llety cychwynnol, ni waeth beth fo'u lleoliad. | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.<br><br>Mae'r polisi ar wrthod llety wedi arwain at brosesau symud ymlaen mwy effeithiol o Ganolfannau Croeso a llety cychwynnol, gan ddarparu lefel o sicrwydd i'r rhaglen Cartrefi i Wcráin. Mae symud ymlaen yn amserol yn gwella canlyniadau integreiddio y rhai sy'n cyrraedd, yn cefnogi gwerth da am arian ac yn helpu i sicrhau triniaeth decach ar gyfer gwahanol grwpiau a chanddynt anghenion o ran tai.<br><br>Trafodir y defnydd o'r polisi gwrthod yn ein cyfarfodydd rheolaidd gydag awdurdodau lleol er mwyn helpu i sicrhau dull gweithredu cyson.<br><br>Mae'r polisi wedi bod yn cael ei adolygu ers iddo gael ei dreialu a'i gyflwyno'n llawn, gan wneud newidiadau ar sail adborth gan | 30 Mehefin 2024 | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau Cydlynus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | bartneriaid ac i adlewyrchu arferion da. Gwnaed newidiadau hefyd i'r Cod Ymddygiad ar gyfer gwesteion er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran symud ymlaen a thalu ffioedd sy'n gysylltiedig â pharhau i wrthod cynigion o lety symud ymlaen. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i weld pa mor gyson mae'r polisi gwrthod wedi cael ei ddefnyddio o fewn awdurdodau lleol.<br><br>Mae ein cynllun 'Llety Cychwynnol' bellach yn dod i ben, gyda'r lleoliadau llety cychwynnol olaf yn cau ddechrau'r haf. Byddwn yn sicrhau, fodd bynnag, ein bod yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth weithredu'r polisi gwrthod, a'i effaith, i gynllunio polisi gwrthod diwygiedig ar gyfer unrhyw strategaeth newydd ar gyfer croesawu newydd-ddyfodiaid o Wcráin. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol. | | |

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon